- (1) Caiff SLIAC wneud cais am adolygiad barnwrol mewn perthynas ag ymddygiad awdurdod cyhoeddus pa un a yw wedi dyroddi hysbysiad cydymffurfio neu wedi llunio adroddiad gwella mewn cysylltiad â’r ymddygiad hwnnw ai peidio.
- (2) Mae is-adran (3) yn gymwys pan fo achos cyfreithiol yn ymwneud â methiant honedig gan awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol (sut bynnag y mae’r honiad wedi ei lunio yn yr achos hwnnw).
- (3) Caiff SLIAC wneud cais i ymyrryd yn yr achos at ddiben gwneud cyflwyniad i’r llys ar fater sy’n codi yn yr achos.
- (4) At ddibenion is-adran (1) neu (3), mae SLIAC i’w thrin fel pe bai ganddi fuddiant digonol ym mhwnc unrhyw gais y mae’n ei wneud neu unrhyw achos cyfreithiol y mae’n ymyrryd ynddo.
- (5) Yn yr adran hon –
 - (a) ystyr “achos cyfreithiol” yw achos sifil gerbron llys, gan gynnwys achos apêl ac achos ar gais am adolygiad barnwrol;
 - (b) mae cyfeiriadau at gais am adolygiad barnwrol yn cynnwys cais am ganiatâd yr Uchel Lys i wneud cais am adolygiad barnwrol.’.

Delyth Jewell

132

Page 12, after line 15, insert a new section –

‘[] Duty to consult counterparts

- (1) If the OEGW considers that a particular exercise of its functions may be relevant to the exercise of a function exercised by a counterpart environmental governance body in the UK, the OEGW must consult that body.
- (2) In this section, a “counterpart environmental governance body” means, as applicable –
 - (a) the Office for Environmental protection established under section 22 of the Environment Act 2021 (c.30);
 - (b) Environmental Standards Scotland established under section 19 of the UK Withdrawal from the European Union (Continuity)(Scotland) Act 2021 (asp 4).’.

Tudalen 12, ar ôl llinell 16, mewnosoder adran newydd –

‘[] Dyletswydd i ymgynghori â chyrff cyfatebol

- (1) Os yw SLIAC yn ystyried y gall arfer ei swyddogaethau mewn modd penodol fod yn berthnasol i arfer swyddogaeth gan gorff llywodraethiant amgylcheddol cyfatebol yn y DU, rhaid i SLIAC ymgynghori â’r corff hwnnw.
- (2) Yn yr adran hon, ystyr “corff llywodraethiant amgylcheddol cyfatebol” yw, fel y bo’n berthnasol –
 - (a) Swyddfa Diogelu’r Amgylchedd a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30);
 - (b) Safonau Amgylcheddol yr Alban a sefydlwyd o dan adran 19 o Ddeddf Ymadael y DU â’r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021 (dsa 4).’.

Huw Irranca-Davies

16

Section 24, page 12, after line 21, insert –

- ‘() But see also section 183A of the Data Protection Act 2018 (c. 12) (protection of requirements for processing personal data).’.

Adran 24, tudalen 12, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- ‘() Ond gweler hefyd adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) (diogelu gofynion ar gyfer prosesu data personol).’.

Huw Irranca-Davies

17

Section 24, page 12, line 27, leave out ‘But’.

Adran 24, tudalen 12, llinell 28, hepgorer ‘Ond’.

Huw Irranca-Davies

18

Section 24, page 12, line 32, leave out ‘, or

- (b) requires or authorises the disclosure of information that would contravene the data protection legislation (but the duty or power is to be taken into account in determining whether the disclosure would contravene that legislation).
- (4) In this section, “the data protection legislation” has the same meaning as in the Data Protection Act 2018 (c. 12) (see section 3(9) of that Act)‘.

Adran 24, tudalen 12, llinell 34, hepgorer ‘, neu

- (b) yn ei gwneud yn ofynnol neu’n awdurdodi datgelu gwybodaeth a fyddai’n torri’r ddeddfwriaeth diogelu data (ond mae’r ddyletswydd i’w hystyried neu mae’r pŵer i’w ystyried wrth benderfynu a fyddai’r datgeliad yn torri’r ddeddfwriaeth honno).
- (4) Yn yr adran hon, mae i “y ddeddfwriaeth diogelu data” yr un ystyr ag a roddir i “the data protection legislation” yn Neddf Diogelu Data 2018 (p. 12) (gweler adran 3(9) o’r Ddeddf honno)‘.

Rhys ab Owen

160

Section 24, page 13, line 1, after ‘section’, insert ‘and in section [section to be inserted by amendment 159]’.

Adran 24, tudalen 13, llinell 1, ar ôl ‘hon’, mewnosoder ‘ac yn adran [adran i’w mewnosod gan welliant 159]’.

Huw Irranca-Davies

19

Section 29, page 15, after line 19, insert –

‘(5) Before making regulations under subsection (4) the Welsh Ministers must consult –

(a) the OEGW, and

(b) such other persons as they consider appropriate.’.

Adran 29, tudalen 15, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

‘(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (4) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –

(a) SLIAC, a

(b) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

Delyth Jewell

133

Section 33, page 16, line 11, after ‘biodiversity,’ insert ‘and in the longer term secure the substantial recovery of biodiversity,’.

Adran 33, tudalen 16, llinell 13, ar ôl ‘bioamrywiaeth’, mewnosoder ‘ac, yn y tymor hwy, yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hadfer yn sylweddol’.

Delyth Jewell

134

Section 33, page 16, line 13, after ‘species’, insert ‘to healthy and resilient levels’.

Adran 33, tudalen 16, llinell 15, ar ôl ‘brodorol’, mewnosoder ‘i lefelau iach a chydnerth’.

Huw Irranca-Davies

20

Section 33, page 16, line 17, leave out ‘increasing the abundance of native species’ and insert ‘the matters specified in subsection (2)(a), (b) or (c)’.

Adran 33, tudalen 16, llinell 19, hepgorer ‘gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol’ a mewnosoder ‘y materion a bennir yn is-adran (2)(a), (b) neu (c)’.

Delyth Jewell

135

Section 33, page 17, after line 8, insert –

‘(c) “enhancing the resilience of ecosystems” includes taking action to conserve, restore or create a particular type of habitat or ecosystem.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

‘(c) mae “gwella cydnerthedd ecosystemau” yn cynnwys cymryd camau i gadw, adfer neu greu math penodol o gynefin neu ecosystem.’.

Carolyn Thomas

52

Section 33, page 17, line 9, after ‘sections’, insert ‘6C,’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 10, ar ôl ‘adrannau’, mewnosoder ‘6C,’.

This amendment to section 6B(8) is consequential to the amendments to add long-term and short-term targets in section 6C.

Mae’r gwelliant hwn i adran 6B(8) yn ganlyniadol i’r gwelliannau i ychwanegu targedau hirdymor a thargedau tymor byr yn adran 6C.

Rhys ab Owen

65A

As an amendment to amendment 65, line 8, leave out ‘2035’ and insert ‘2030’.

Fel gwelliant i welliant 65, llinell 8, hepgorer ‘2035’ a mewnosoder ‘2030’.

Janet Finch-Saunders

65

Section 33, page 17, after line 11, insert –

‘[1] 2050 biodiversity recovery target

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target (the “2050 biodiversity recovery target”) in respect of matters relating to biodiversity recovery.
- (2) Before making regulations under subsection (1) which set or amend a target, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target, or the amended target, would result in the improvement in the status of species and ecosystems by 2035 and their clear recovery in Wales by 2050.
- (3) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 18 months beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

‘[1] Targed adfer bioamrywiaeth 2050

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed (“targed adfer bioamrywiaeth 2050”) mewn cysylltiad â materion sy’n ymwneud ag adfer bioamrywiaeth.
- (2) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) sy’n gosod neu’n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni y byddai cyrraedd y targed, neu ddiwygio’r targed, yn arwain at wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2035 a’u hadfer yn glir yng Nghymru erbyn 2050.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 18 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Delyth Jewell

136

Section 33, page 17, after line 11, insert –

[] 2035 species abundance target

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target (the “species abundance target”) in respect of matters relating to the abundance of species.
- (2) Before making regulations under subsection (1) which set or amend a target, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target, or the amended target, would –
 - (a) halt and reverse a decline in the abundance of species by 2035; and
 - (b) ensure the level of the abundance of species in 2035 is higher than the level recorded in 2030.
- (3) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 18 months beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

[] Targed toreithrwydd rhywogaethau 2035

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed (y “targed toreithrwydd rhywogaethau”) mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â thoreithrwydd rhywogaethau.
- (2) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) sy’n gosod neu’n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni y byddai cyrraedd y targed, neu’r targed diwygiedig –

- (a) yn atal ac yn gwrthdroi dirywiad yn nhoreithrwydd rhywogaethau erbyn 2035; a
 - (b) yn sicrhau bod lefel toreithrwydd rhywogaethau yn 2035 yn uwch na’r lefel a gofnodir yn 2030.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 18 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Delyth Jewell

137

Section 33, page 17, after line 11, insert –

[] Duty to make regulations setting targets: abundance of swifts

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target aimed at increasing the abundance of swifts in Wales through the incorporation of swift bricks in new housing developments.
- (2) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 18 months beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

[] Dyletswydd i wneud rheoliadau sy’n gosod targedau: toreithrwydd gwenoliaid duon

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed sydd â’r nod o gynyddu toreithrwydd gwenoliaid duon yng Nghymru drwy gynnwys briciau gwenoliaid duon mewn datblygiadau tai newydd.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 18 mis sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Carolyn Thomas

53

Section 33, page 17, line 13, leave out ‘set a target in respect of at least one matter within each priority area’, and insert –

‘ –

- (a) set a long-term target in respect of at least one matter within each of the priority areas in subsection (2)(a) and (b),
- (b) set a short-term target in respect of at least one matter within each of the priority areas in subsection (2)(a) and (b), and
- (c) set a target in respect of at least one matter within each of the priority areas in subsection (2)(c) and (d)’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 15, hepgorer 'osod targed mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob maes blaenoriaeth', a mewnosoder –

‘ –

- (a) gosod targed hirdymor mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) a (b),
- (b) gosod targed tymor byr mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) a (b), ac
- (c) gosod targed mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(c) a (d)’.

This amendment to section 6C(1) imposes a duty on the Welsh Ministers to set both long-term and short-term targets in relation to the priority areas in subsection (2)(a) (reducing the risk of the extinction of native species) and (b) (the effective management of ecosystems).

Mae’r gwelliant hwn i adran 6C(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau hirdymor yn ogystal â thargedau tymor byr mewn perthynas â’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) (lleihau’r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol) a (b) (rheoli ecosystemau yn effeithiol).

Rhys ab Owen

1

Section 33, page 17, line 18, after ‘pollution’, insert ‘, including but not limited to microplastic pollution’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 20, ar ôl ‘llygredd’, mewnosoder ‘, gan gynnwys llygredd microblastig ond heb fod yn gyfyngedig iddo’.

Delyth Jewell

138

Section 33, page 17, line 18, after ‘pollution’, insert ‘, including but not limited to air pollution’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 20, ar ôl ‘llygredd’, mewnosoder ‘, gan gynnwys llygredd aer, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny’.

Delyth Jewell

139

Section 33, page 17, line 18, after ‘pollution’, insert ‘, including but not limited to soil pollution and contamination’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 20, ar ôl ‘llygredd’, mewnosoder ‘, gan gynnwys llygredd pridd a halogiad, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny’.

Delyth Jewell

140

Section 33, page 17, line 18, after ‘pollution’, insert ‘, including but not limited to river pollution’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 20, ar ôl ‘llygredd’, mewnosoder ‘, gan gynnwys llygredd afonydd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny’.

Janet Finch-Saunders

66

Section 33, page 17, after line 20, insert –

‘(e) maintaining common species.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

‘(e) cynnal rhywogaethau cyffredin.’.

Carolyn Thomas

54

Section 33, page 17, after line 20, insert –

‘() A target is a “long-term target” if the specified date is at least 15 years after the date on which the target is set.

() A target is a “short-term target” if the specified date is less than 15 years after the date on which the target is set.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

‘() Mae targed yn “targed hirdymor” os yw’r dyddiad penodedig o leiaf 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodir y targed.

() Mae targed yn “targed tymor byr” os yw’r dyddiad penodedig lai na 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodir y targed.’.

This amendment defines a ‘long-term target’ as one with a specified date that is at least 15 years after the date it was set, and it defines a ‘short-term target’ as one with a specified date that is less than 15 years after the date it was set.

Mae’r gwelliant hwn yn diffinio ‘targed hirdymor’ fel un sydd â dyddiad penodedig sydd o leiaf 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y’i gosodwyd, ac mae’n diffinio ‘targed tymor byr’ fel un sydd â dyddiad penodedig sy’n llai na 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y’i gosodwyd.

Huw Irranca-Davies

21

Section 33, page 17, line 29, leave out ‘3’ and insert ‘2’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 32, hepgorer ‘3 blynedd’ a mewnosoder ‘2 flynedd’.

Janet Finch-Saunders

67

Section 33, page 17, line 29, leave out ‘3 years’ and insert ‘18 months’.

Adran 33, tudalen 17, llinell 32, hepgorer ‘3 blynedd’ a mewnosoder ‘18 mis’.

Section 33, page 17, after line 31, insert –

[] Duty to make regulations setting targets: plastic and microplastic pollution

- (1) The Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a target in respect of reducing plastic and microplastic pollution to levels that are not harmful to biodiversity in Wales.
- (2) The Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing the regulations required by this section before Senedd Cymru before the end of the period of 2 years beginning with the date on which the Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Act 2026 (asc xx) receives Royal Assent.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

[] Dyletswydd i wneud rheoliadau sy’n gosod targedau: llygredd plastig a microblastig

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed mewn cysylltiad â lleihau llygredd plastig a microblastig i lefelau nad ydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth yng Nghymru.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy’n cynnwys y rheoliadau sy’n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy’n dechrau â’r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsa xx) y Cydsyniad Brenhinol.’.

Janet Finch-Saunders

68

Section 33, page 17, after line 37, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must consult –
- (a) a committee of Senedd Cymru for the time being with responsibility for environmental protection;
 - (b) members of the public in Wales.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 41, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
- (a) pwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu’r amgylchedd am y tro wedi ei gynnwys o fewn ei gylch gwaith;
 - (b) aelodau’r cyhoedd yng Nghymru.’.

Delyth Jewell

141

Section 33, page 17, after line 37, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must consult –
 - (a) such persons or bodies that the Welsh Ministers reasonably consider have an interest in matters relating to biodiversity in Wales;
 - (b) each public authority within section 6(11) of this Act;
 - (c) members of the public in Wales.’.

Adran 33, tudalen 17, ar ôl llinell 41, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
 - (a) unrhyw bersonau neu gyrff y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yn rhesymol fod ganddynt fuddiant mewn materion sy’n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru;
 - (b) pob awdurdod cyhoeddus o fewn adran 6(11) o’r Ddeddf hon;
 - (c) aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.’.

Joyce Watson

155

Section 33, page 18, after line 2, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must publish a report summarising –
 - (a) the consultation that was carried out in connection with the regulations, and
 - (b) any representations that were received as a result of the consultation.’.

Adran 33, tudalen 18, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy’n crynhoi –
 - (a) yr ymgynghori a gynhaliwyd mewn cysylltiad â’r rheoliadau, a
 - (b) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i’r ymgynghori.’.

This amendment to section 6D imposes a duty on the Welsh Ministers to publish a report summarising the consultation undertaken during the target-setting process, including any representations made. The summary report must be published before regulations under section 6B are made.

Mae’r gwelliant hwn i adran 6D yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad sy’n crynhoi’r ymgynghoriad a gynhelir yn ystod y broses o osod targedau, gan gynnwys unrhyw sylwadau a wneir. Rhaid i’r adroddiad cryno gael ei gyhoeddi cyn i reoliadau o dan adran 6B gael eu gwneud.

Janet Finch-Saunders

69

Section 33, page 18, after line 5, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target would not have a materially negative impact on agricultural output.’.

Adran 33, tudalen 18, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni na fyddai cyrraedd y targed yn cael effaith sylweddol negyddol ar allbwn amaethyddol.’.

Janet Finch-Saunders

70

Section 33, page 18, after line 5, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must be satisfied that meeting the target would not have an adverse impact on biodiversity outside Wales.’.

Adran 33, tudalen 18, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni na fyddai cyrraedd y targed yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth y tu allan i Gymru.’.

Janet Finch-Saunders

71

Section 33, page 18, after line 5, insert –

- ‘() Before making regulations under section 6B, the Welsh Ministers must have regard to ensuring a balance of targets in relation to the land and sea.’.

Adran 33, tudalen 18, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- ‘() Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i sicrhau cydbwysedd o dargedau mewn perthynas â’r tir a’r môr.’.

Huw Irranca-Davies

22

Section 33, page 18, after line 7, insert –

- ‘(6) Subsections (1) to (3) do not apply to provisions in regulations under section 6B that revoke a target that has been met.’.

Adran 33, tudalen 18, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- ‘(6) Nid yw is-adrannau (1) i (3) yn gymwys i ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan adran 6B sy’n dirymu targed sydd wedi ei gyrraedd.’.



Section 33, page 18, after line 10, insert –

[1] Monitoring progress towards meeting targets

- (1) The Welsh Ministers must make reasonable arrangements for obtaining such data about biodiversity in Wales as they consider appropriate to monitor the progress being made towards meeting any targets set under section 6B.
- (2) The Welsh Ministers must publish any data obtained under subsection (1) as soon as is reasonably practicable.’.

Adran 33, tudalen 18, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

[1] Monitro cynnydd tuag at gyrraedd targedau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau rhesymol ar gyfer cael unrhyw ddata am fioamrywiaeth yng Nghymru y maent yn ystyried eu bod yn briodol i fonitro’r cynnydd sy’n cael ei wneud tuag at gyrraedd unrhyw dargedau a osodir o dan adran 6B.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ddata a geir o dan is-adran (1) cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.’.

Section 33, page 18, leave out lines 11 to 18 and insert –

‘6F Duty to contribute towards targets

A public authority must take all reasonable action to contribute to a target set under section 6B.’.

Adran 33, tudalen 18, hepgorer llinellau 11 hyd at 18 a mewnosoder –

‘6F Dyletswydd i gyfrannu at dargedau

Rhaid i awdurdod cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i gyfrannu at darged a osodir o dan adran 6B.’.

Section 33, page 18, line 23, after ‘6B’, insert ‘at least once each term of Senedd Cymru, and in particular’.

Adran 33, tudalen 18, llinell 23, ar ôl ‘6B’, mewnosoder ‘o leiaf unwaith ym mhob un o dymhorau Senedd Cymru, ac yn benodol’.

Section 33, page 18, leave out lines 26 to 29 and insert –

- ‘() The Welsh Ministers may, from time to time, review the effectiveness of all current targets for the purpose of determining whether setting further targets in regulations under section 6B would be more effective in contributing to halting and reversing the decline in biodiversity.
- () The Welsh Ministers must review the effectiveness of all current targets for the purpose mentioned in subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) –
 - (a) if a target set in regulations under section 6B has not been met by the specified date in relation to that target;
 - (b) if 10 years have passed since the most recently completed review under any of subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*), this subsection or subsection (*[third subsection to be inserted by this amendment]*).
- () If no review under subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) or (*[second subsection to be inserted by this amendment]*) has been completed before the end of 2041, the Welsh Ministers must review the effectiveness of all current targets for the purpose mentioned in subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*).
- () A target is current for the purpose of subsections (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) to (*[third subsection to be inserted by this amendment]*) if –
 - (a) it has been set in regulations under section 6B that are in force at the time of the review, and
 - (b) it has not been met at that time.’.

Adran 33, tudalen 18, hepgorer llinellau 26 hyd at 30 a mewnosoder –

- ‘() Caiff Gweinidogion Cymru, o bryd i’w gilydd, adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at ddiben penderfynu a fyddai gosod targedau pellach mewn rheoliadau o dan adran 6B yn fwy effeithiol o ran cyfrannu at atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth.
- () Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at y diben a grybwyllir yn is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) –
 - (a) os nad yw targed a osodwyd mewn rheoliadau o dan adran 6B wedi ei gyrraedd erbyn y dyddiad penodedig mewn perthynas â’r targed hwnnw;
 - (b) os oes 10 mlynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad a gwblhawyd yn fwyaf diweddar o dan unrhyw un o is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*), yr is-adran hon neu is-adran (*[y drydedd is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*).



- () Os nad oes unrhyw adolygiad o dan is-adran ([*yr is-adran gyntaf i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) neu ([*yr ail is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) wedi ei gwblhau cyn diwedd 2041, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at y diben a grybwyllir yn is-adran ([*yr is-adran gyntaf i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) .
- () Mae targed yn gyfredol at ddiben is-adrannau ([*yr is-adran gyntaf i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) i ([*y drydedd is-adran i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) os –
 - (a) yw wedi ei osod mewn rheoliadau o dan adran 6B sydd mewn grym ar adeg yr adolygiad, a
 - (b) nad yw wedi ei gyrraedd ar yr adeg honno.’.

Huw Irranca-Davies

24

Section 33, page 18, line 30, after ‘review’, insert ‘under this section’.

Adran 33, tudalen 18, llinell 31, ar ôl ‘adolygiad’, mewnosoder ‘o dan yr adran hon’.

Huw Irranca-Davies

25

Section 33, page 18, line 34, after ‘review’, insert ‘under this section’.

Adran 33, tudalen 18, llinell 36, ar ôl ‘adolygiad’, mewnosoder ‘o dan yr adran hon’.

Huw Irranca-Davies

26

Section 33, page 19, line 1, leave out ‘the review’ and insert ‘a review under subsection (1) or (2)’.

Adran 33, tudalen 19, llinell 1, hepgorer ‘daw’r adolygiad’ a mewnosoder ‘daw adolygiad o dan is-adran (1) neu (2)’.

Huw Irranca-Davies

27

Section 33, page 19, after line 4, insert –

- ‘(8) If a review under subsection (*[first subsection to be inserted by amendment 23]*), (*[second subsection to be inserted by amendment 23]*) or (*[third subsection to be inserted by amendment 23]*) concludes that further targets should be set in regulations under section 6B, the Welsh Ministers must lay a draft of a Welsh statutory instrument containing such regulations before Senedd Cymru before the end of the period of 2 years beginning with the day on which the review was completed.
- (9) A review is completed for the purpose of subsections (*[second subsection to be inserted by amendment 23]*)(b), (*[third subsection to be inserted by amendment 23]*) and (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) when the statement required by subsection (6) is published.’.

Adran 33, tudalen 19, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- (8) Os daw adolygiad o dan is-adran ([*yr is-adran gyntaf i'w mewnosod gan welliant 23*]), ([*yr ail-is-adran i'w mewnosod gan welliant 23*]) neu ([*y drydedd is-adran i'w mewnosod gan welliant 23*]) i'r casgliad y dylid gosod targedau pellach mewn rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys y rheoliadau hynny gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad.
- (9) Cwblheir adolygiad at ddiben is-adrannau ([*yr ail-is-adran i'w mewnosod gan welliant 23*])(b), ([*y drydedd is-adran i'w mewnosod gan welliant 23*]) a ([*yr is-adran gyntaf i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) pan gyhoeddir y datganiad sy'n ofynnol gan is-adran (6).'

Huw Irranca-Davies

28

Section 33, page 19, after line 36, insert –

- (5) This section does not apply to provisions in regulations under section 6B that revoke a target that has been met.'

Adran 33, tudalen 19, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- (5) Nid yw'r adran hon yn gymwys i ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu targed sydd wedi ei gyrraedd.'

Delyth Jewell

144

Section 33, page 19, after line 36, insert –

- (5) If the Welsh Ministers make regulations under section 6B that revoke an existing target, the Welsh Ministers must exercise the power in section 6B to set a new target to replace the existing target as soon as reasonably practicable.'

Adran 33, tudalen 19, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- (5) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu targed presennol, rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed newydd yn lle'r targed presennol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.'

Janet Finch-Saunders

73

Section 33, page 20, after line 12, insert –

- (d) an assessment of the impact of the target on agricultural output since being set in regulations.'

Adran 33, tudalen 20, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

‘(d) asesiad o effaith y targed ar allbwn amaethyddol ers ei osod mewn rheoliadau.’.

Huw Irranca-Davies

29

Section 33, page 20, line 14, leave out ‘12’ and insert ‘6’.

Adran 33, tudalen 20, llinell 14, hepgorer ‘12’ a mewnosoder ‘6’.

Janet Finch-Saunders

74

Section 33, page 20, line 24, after ‘expertise’, insert ‘, and

() take account of any such advice’.

Adran 33, tudalen 20, llinell 24, ar ôl ‘perthnasol’, mewnosoder ‘, a

() ystyried unrhyw gyngor o’r fath’.

Huw Irranca-Davies

30

Section 33, page 20, after line 35, insert –

‘() In section 25(4) of the Environment Act, after “section 22(1)” insert “, or to revoke a target that has been set in regulations under section 6B and that has been met,”.’.

Adran 33, tudalen 20, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

‘() Yn adran 25(4) o Ddeddf yr Amgylchedd, ar ôl “a hynny’n unig,” mewnosoder “neu o ddirymu targed sydd wedi ei osod mewn rheoliadau o dan adran 6B ac sydd wedi ei gyrraedd, a hynny’n unig,”.’.

Delyth Jewell

145

Page 21, after line 9, insert a new section –

[] Duty to issue guidance

(1) After section 6(8) of the Environment Act, insert –

“(8A) The Welsh Ministers must issue guidance to public authorities setting out how to comply with the duties under this section.

(8B) A public authority must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers under subsection (8A).”.

Tudalen 21, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd i ddyroddi canllawiau

(1) Ar ôl adran 6(8) o Ddeddf yr Amgylchedd, mewnosoder –

“(8A) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus sy’n nodi sut i gydymffurfio â’r dyletswyddau o dan yr adran hon.

(8B) Rhaid i awdurdod cyhoeddus roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (8A).”.

Joyce Watson

156

Section 35, page 21, after line 11, insert –

“(6A) The Welsh Ministers must –

- (a) when preparing their plan under subsection (6), apply the principles of sustainable management of natural resources, and
- (b) when they publish that plan, also publish a report summarising –
 - (i) the consultation that was carried out in preparing the plan, and
 - (ii) any representations that were received as a result of the consultation.’.

Adran 35, tudalen 21, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

“(6A) Rhaid i Weinidogion Cymru –

- (a) pan fyddant yn paratoi eu cynllun o dan is-adran (6), gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, a
- (b) pan fyddant yn cyhoeddi’r cynllun hwnnw, gyhoeddi hefyd adroddiad sy’n crynhoi –
 - (i) yr ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi’r cynllun, a
 - (ii) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i’r ymgynghori.’.

This amendment requires the Welsh Ministers, when preparing their plan under section 6(6), to (a) apply the principles of sustainable management of natural resources (SMNR), which includes making appropriate arrangements for public participation in decision-making, and (b) publish a report summarising the consultation carried out and any representations received.

Mae’r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth lunio eu cynllun o dan adran 6(6), (a) cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy’n cynnwys gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau a (b) cyhoeddi adroddiad sy’n crynhoi’r ymgynghoriad a gynhelir ac unrhyw sylwadau a ddaw i law.

Huw Irranca-Davies

31

Section 35, page 21, after line 13, insert –

- ‘() what action they propose to take to contribute to the fulfilment of the vision of the Global Biodiversity Framework, namely that “by 2050, biodiversity is valued, conserved, restored and wisely used, maintaining ecosystem services, sustaining a healthy planet and delivering benefits essential for all people”,

- () proposals covering the areas of responsibility of each of the Welsh Ministers,’.

Adran 35, tudalen 21, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- () pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyfrannu at wireddu gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang sef, erbyn 2050, fod bioamrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, ei gadw, ei adfer a’i ddefnyddio’n ddoeth, gan gadw gwasanaethau ecosystem, cynnal planed iach a chyflawni buddion sy’n hanfodol i’r holl bobl,
- () cynigion sy’n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru,’.

Delyth Jewell

146

Section 35, page 21, line 18, after ‘biodiversity’, insert ‘and, in the longer term, to securing substantial recovery of biodiversity’.

Adran 35, tudalen 21, llinell 22, ar ôl ‘bioamrywiaeth’, mewnosoder ‘ac, yn y tymor hwy, yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hadfer yn sylweddol’.

Huw Irranca-Davies

32

Section 35, page 21, after line 18, insert –

- (c) where the standard specified under section 6B(4) in relation to a target is achieved, how they propose to maintain that standard, and
- (d) what action they propose to take to comply with the duty in section 8A to promote awareness of biodiversity.
- (6B) In subsection (6A)([*first paragraph to be inserted by amendment 31*]), the “Global Biodiversity Framework” means the Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework, adopted under the United Nations Convention on Biological Diversity referred to in subsection (4)(a) at the fifteenth meeting of the Conference of the Parties in December 2022.”’.

Adran 35, tudalen 21, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- (c) pan fo’r safon a bennir o dan adran 6B(4) mewn perthynas â tharged wedi ei chyflawni, sut y maent yn bwriadu cynnal y safon honno, a
- (d) pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â’r ddyletswydd yn adran 8A i hybu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

- (6B) Yn is-adran (6A)([y paragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 31]), ystyr y "Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang" yw Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, a fabwysiadwyd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol y cyfeirir ato yn is-adran (4)(a) ym mhymthegfed cyfarfod Cynhadledd y Partïon ym mis Rhagfyr 2022."".

Janet Finch-Saunders

75

Section 35, page 21, after line 18, insert –

- '(c) an assessment of the impact of the actions they propose to take under paragraph (a) on agricultural output in Wales.'"

Adran 35, tudalen 21, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- '(c) asesiad o effaith y camau y maent yn bwriadu eu cymryd o dan baragraff (a) ar allbwn amgylcheddol yng Nghymru.'"

Delyth Jewell

147

Section 35, page 21, after line 18, insert –

- '(6B) Before the Welsh Ministers publish a plan or a revised plan under subsection (6), the Welsh Ministers must consult –
- (a) such persons or bodies as the Welsh Ministers reasonably consider have an interest in matters relating to biodiversity in Wales;
- (b) members of the public in Wales.'"

Adran 35, tudalen 21, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

- '(6B) Cyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun neu gynllun diwygiedig o dan is-adran (6), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –
- (a) unrhyw bersonau neu gyrff y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yn rhesymol fod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru;
- (b) aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.'"

Janet Finch-Saunders

76

Section 37, page 22, after line 4, insert –

- '() The evaluation report must also set out the Welsh Minsters' assessment of the impact of the proposals on agricultural output.'

Adran 37, tudalen 22, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- '() Rhaid i'r adroddiad gwerthuso hefyd nodi asesiad Gweinidogion Cymru o effaith y cynigion ar allbwn amaethyddol.'

Huw Irranca-Davies

33

Section 40, page 23, after line 4, insert –

‘() section 44 ([first subsection to be inserted by amendment 40]);’.

Adran 40, tudalen 23, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘() adran 44 [(yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 40)];’.

Janet Finch-Saunders

77

Page 24, after line 10, insert a new section –

[] Functions of Senedd Cymru

- (1) Senedd Cymru may by standing orders make provision regarding the exercise of the functions conferred upon it by or under Schedule 1 to this Act.
- (2) Such provision includes, but is not limited to, delegating functions to a committee or sub-committee of Senedd Cymru or the chair of such committee or sub-committee.’.

Tudalen 24, ar ôl llinell 11, mewnosoder adran newydd –

[] Swyddogaethau Senedd Cymru

- (1) Caiff Senedd Cymru drwy reolau sefydlog wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan Atodlen 1 i’r Ddeddf hon neu odani.
- (2) Mae’r ddarpariaeth honno yn cynnwys dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor neu is-bwyllgor yn Senedd Cymru neu gadeirydd y pwyllgor hwnnw neu’r is-bwyllgor hwnnw, ond nid yw’n gyfyngedig i hynny.’.

Rhys ab Owen

161

Section 42, page 24, after line 12, insert –

“Aarhus convention” (“*Confensiwn Aarhus*”) means the United Nations Economic Commission for Europe Convention on Access to Information, Public Participation in Decision-making and Access to Justice in Environmental Matters adopted on 25 June 1998 in Aarhus, Denmark, at the Fourth Ministerial Conference in the ‘Environment for Europe’ process;’.

Adran 42, tudalen 24, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘ystyr “confensiwn Aarhus” (“*Aarhus convention*”) yw Confensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd yn y Broses o Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol a fabwysiadwyd ar 25 Mehefin 1998 yn Aarhus, Denmarc, yn y Bedwaredd Gynhadledd Weinidogol ym mhroses ‘Amgylchedd Ewrop’;’.

Delyth Jewell

148

Section 42, page 24, after line 12, insert –

“Committee on Climate Change (“*Pwyllgor ar Newid Hinsawdd*”) has the meaning given by section 32 of the Climate Change Act 2008 (c. 27);”.

Adran 42, tudalen 25, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

‘mae i “*Pwyllgor ar Newid Hinsawdd*” (“*Committee on Climate Change*”) yr ystyr a roddir gan adran 32 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 (p. 27);’.

Huw Irranca-Davies

34

Section 42, page 24, line 31, leave out ‘6’ and insert ‘7’.

Adran 42, tudalen 24, llinell 31, hepgorer ‘6’ a mewnosoder ‘7’.

Huw Irranca-Davies

49

Schedule 4, page 42, after line 10, insert –

‘Government of Wales Act 2006 (c. 32)

[] In section 148 of the Government of Wales Act 2006 (meaning of “Welsh public records”), after subsection (2)(ka) insert –

“(kb) the Office of Environmental Governance Wales,”.

Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1)

[] In Schedule 6 to the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (persons liable to be required to comply with standards: public bodies etc.), in the table, under the heading “General”, after the entry for the Office of Communications insert –

“The Office of Environmental Governance Wales (“ <i>Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru</i> ”)	Service delivery standards Policy making standards Operational standards Record keeping standards”
---	---

Atodlen 4, tudalen 42, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

‘Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)

[] Yn adran 148 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ystyr “Welsh public records”), ar ôl is-adran (2)(ka) mewnosoder –

“(kb) the Office of Environmental Governance Wales,”.

[] Yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (personau sy’n agored i orfod cydymffurfio â safonau: cyrff cyhoeddus etc.), yn y tabl, o dan y pennawd “Cyffredinol”, ar ôl y cofnod ar gyfer y Swyddfa Gyfathrebiadau mewnosoder—

“Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (“ <i>The Office of Environmental Governance Wales</i> ”)	Safonau cyflenwi gwasanaethau Safonau llunio polisi Safonau gweithredu Safonau cadw cofnodion”
---	---

Delyth Jewell 154

Schedule 4, page 42, line 18, leave out paragraph 3.

Atodlen 4, tudalen 42, llinell 18, hepgorer paragraff 3.

Huw Irranca-Davies 35

Section 44, page 25, after line 20, insert—

‘() section 6 and section 7, except subsection (1)(c);’.

Adran 44, tudalen 25, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

‘() adran 6 ac adran 7, ac eithrio is-adran (1)(c);’.

Huw Irranca-Davies 36

Section 44, page 25, line 25, leave out ‘and’ at the first place where it appears, and insert ‘to’.

Adran 44, tudalen 25, llinell 29, hepgorer ‘a’ a mewnosoder ‘i’.

Huw Irranca-Davies 37

Section 44, page 25, line 27, leave out ‘6 and subsections (1)(a), (b) and (d), (2) and (3) of section 7 come into force at the end of the period of six months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent’ and insert ‘5 come into force on 31 March 2027’.

Adran 44, tudalen 25, llinell 31, hepgorer ‘6 ac is-adrannau (1)(a), (b) a (d), (2) a (3) o adran 7 i rym ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol’ a mewnosoder ‘5 i rym ar 31 Mawrth 2027’.

Huw Irranca-Davies 38

Section 44, page 25, line 30, after ‘(3),’, insert ‘and subject to subsection ([*first subsection to be inserted by amendment 39*])’.

Adran 44, tudalen 25, llinell 33, ar ôl ‘(3),’, mewnosoder ‘ac yn ddarostyngedig i ([*yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 39*])’.

Huw Irranca-Davies

39

Section 44, page 25, after line 32, insert –

- ‘() If the provisions mentioned in subsection (*[second subsection to be inserted by this amendment]*) have not come into force by the end of the period of 24 months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent, they come into force at the end of that period.
- () The provisions are –
- (a) section 7(1)(c);
 - (b) paragraphs 10 and 21 of Schedule 1;
 - (c) sections 10 to 27 and Schedule 2;
 - (d) paragraph 3 of Schedule 4 (and section 43 in so far as relating to that paragraph).’.

Adran 44, tudalen 25, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- ‘() Os nad yw’r darpariaethau a grybwyllir yn is-adran (*[yr ail is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) wedi dod i rym erbyn diwedd y cyfnod o 24 o fisoedd sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, maent yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
- () Y darpariaethau yw –
- (a) adran 7(1)(c);
 - (b) paragraffau 10 ac 21 o Atodlen 1;
 - (c) adrannau 10 i 27 ac Atodlen 2;
 - (d) paragraff 3 o Atodlen 4 (ac adran 43 i’r graddau y mae’n ymwneud â’r paragraff hwnnw).’.

Huw Irranca-Davies

40

Section 44, page 25, after line 35, insert –

- ‘(6) Regulations may amend subsection (*[first subsection to be inserted by amendment 39]*) to substitute a different period for the period for the time being specified in that subsection.
- (7) The period substituted in accordance with subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) may not be longer than 48 months beginning with the day on which this Act receives Royal Assent.’.

Adran 44, tudalen 25, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- ‘(6) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan welliant 39]*) er mwyn rhoi cyfnod gwahanol yn lle’r cyfnod a bennir am y tro yn yr is-adran honno.
- (7) Ni chaiff y cyfnod a amnewidir yn unol ag is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) fod yn hwy na 48 o fisoedd sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.’.